LLINELL AMSER I GYMRU

CYSYNIADAU CRAIDD

Mae'r adnodd hwn yn annog dysgwyr i archwilio llinell amser Cymru i ddeall treftadaeth Cymru. Mae'r adnodd yn darlunio prif gyfnodau Cymru, gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau hanesyddol sy'n unigryw i Gymru.



Mae'r adnodd hwn wedi'i fwriadu ar gyfer **cam cynnydd** 2 ond gellid ei addasu i'w ddefnyddio mewn camau cynnydd eraill. Mae'r adnodd yn cyfrannu at ddilyniant drwy ganolbwyntio'r dysgu ar y disgrifiadau dysgu canlynol ar gyfer yr adnodd hwn

DISGRIFIADAU DYSGU

Y DYNIAETHAU: *Rwy'n gallu rhoi digwyddiadau mewn trefn, ac yn dechrau deall y gellir rhannu'r gorffennol i gyfnodau o amser.*

Rwy'n gallu adnabod pethau tebyg a gwahanol ym mywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol.

Rwy'n gallu adnabod agweddau o fywyd yn fy nghymuned sydd wedi newid dros gyfnod o amser.

DOLENNI I'R DATGANIADAU O'R HYN SY'N BWYSIG:

Y DYNIAETHAU – Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl a'r amgylchedd. Mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gronoleg, hunaniaeth a pherthyn, ac awdurdod a llywodraethiant.

ARWEINIAD

O leiaf 5000 o flynyddoedd yn ôl, ymgartrefodd pobl Fesolithig (Oes y Cerrig) mewn rhannau o Gymru. Adeiladon nhw strwythurau allan o garreg, fel siambrau claddu, a chylchoedd cerrig, y mae rhai ohonyn nhw'n dal i sefyll heddiw. Dros filoedd o flynyddoedd, mae cymunedau gwahanol wedi ailddefnyddio safleoedd aneddiadau ledled Cymru ac mae bywydau beunyddiol pobl gyffredin wedi newid dros amser. Rydym yn categoreiddio cymunedau cynhanesyddol yn 'gyfnodau'. Mae rhai cyfnodau allweddol yn ddefnyddiol i'w cofio i'n helpu ni i ddeall pryd mae pobl arbennig wedi byw ac i ddangos sut mae cymdeithas Cymru wedi newid dros amser. Wrth edrych ar linell amser o ddigwyddiadau, rydym ni'n dechrau adeiladu darlun o dreftadaeth a diwylliant Cymru, ei pherthynas â digwyddiadau byd-eang, a sut mae diwylliannau eraill wedi dylanwadu ar hyn drwy gydol hanes.

O'r goresgyniad cymdeithasol cyntaf y gwyddom amdano gan y Rhufeiniaid, brwydrodd pobl Cymru mewn llawer o ryfeloedd i geisio cadw eu hannibyniaeth. Gellir defnyddio'r llinell amser ar y dudalen nesaf i arwain dysgwyr drwy hanes Cymru drwy amlygu cyfnodau a digwyddiadau allweddol. O hyn, gall dysgwyr ddod i werthfawrogi treftadaeth a hunaniaeth.

GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR

1. Gan ddefnyddio sialc yn yr awyr agored, crëwch linell amser fawr i ddangos cyfnodau cronolegol Cymru. Argraffwch luniau o wahanol gyfnodau i helpu plant i weld sut mae cymdeithas wedi datblygu dros amser. Cynhwyswch luniau o ddigwyddiadau y gallai fod ganddynt wybodaeth flaenorol amdanynt, megis: Cynhanes, Oes y Cerrig, Oes yr Haearn, goresgyniad y Rhufeiniaid, Owain Glyndwr, y Tuduriaid, rhyfeloedd ac ati. Unwaith y bydd y llinell amser wedi'i chwblhau, gall dysgwyr drafod yr hyn sy'n wahanol ac yn debyg am ddwy gymuned drwy edrych ar ddelweddau. Gall cwestiynau i danio'u trafodaeth gynnwys: Sut ydyn ni'n gwybod bod y cymunedau'n wahanol? Sut ydyn ni'n gwybod pa mor hen yw'r cymunedau? Mewn pa fath o strwythur maen nhw'n byw? Sut mae eu bywydau'n wahanol/yn debyg i'w gilydd? Sut beth yw'r dechnoleg? Beth ydyn nhw'n ei fwyta?

2. Gall dysgwyr ddylunio a chreu eu llinell amser eu hunain sy'n cynnwys digwyddiadau pwysicaf Cymru drwy gydol hanes.

3. Argraffwch y llinell amser sydd ynghlwm wrth yr adnodd hwn i'w harddangos yn yr ystafell ddosbarth.

CHERISH
Newid Hinsawdd a Threftadaeth yr Arfordir
Climate Change and Coastal Heritage
Athrú Aeráide agus Oidhreacht Chultúrtha

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020
Tionól Réigiúnach an Deiscirt Southern Regional Assembly
Clár Chisti Eorpacha Struchtúrtha agus Infheistíochta na hÉireann 2014-2020
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

CBHC RCAHMW
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

CHERISH
ADNODDAU
ADDYSG

HANES CYMRU

-10000 CC
12000 O FLYNYDDOEDD YN ÔL
CYFNOD MESOLITHIG



Mae'r Oes Mesolithig neu'r Oes Cerrig Ganol yn nodi dechreuad cymunedau yn cynhyrchu bwyd o gymdeithas helwyr-gasglwyr.

-4000 CC
6000 O FLYNYDDOEDD YN ÔL
CYFNOD NEOLITHIG

Nodir yr Oes Neolithig neu Oes Newydd y Cerrig gan y ffermwyr cyntaf. Mae cymdeithasau wedi dysgu sut i dyfu cnydau a chadw anifeiliaid.

-2600 CC
4600 O FLYNYDDOEDD YN ÔL
OES EFYDD

Mae offer metel (efydd) yn cael eu defnyddio'n fwy cyffredin. Gyda'r dechnoleg newydd hon, dechreuwyd symud coed yn eang o Brydain.

-800 CC
2800 O FLYNYDDOEDD YN ÔL
OES HAEARN

Mae mwyndoddi haearn wedi'i ddarganfod ac yn cael ei ddefnyddio i wneud offer ac arfau gwell. Mae masnachu nwyddau a gwasanaethau a sefydlwyd yn yr Oes Efydd yn dod yn fwy cyffredin.

78 OC
GORESGYNIAD Y RHUFEINIAID
YNG NGHYMRU

Dechreuodd yr Ymerodraeth Rufeinig yn 625 CC ond goresgynnodd Brydain yn 43 OC. Cyrhaeddon nhw ffiniau Cymru erbyn 48 OC.

410
O DYWYSOGION

O'r cyfnod hwn, rhannwyd Cymru yn deyrnasoedd bychain niferus, dan reolaeth Tywysogion. Roedden nhw'n ceisio amddiffyn Cymru rhag rheolaeth Lloegr yn barhaus.

854
GORESGYNIAD

Ymosodiad cyntaf y Llychlynwyr i Gymru. Yn 854, ymosododd Llychlynwyr o'r enw y Llu Du ar Ynys Môn cyn i Rhodri Fawr ladd y Pennaeth, Horm yn 855.

950
Y LLYCHLYNWYR

Mae Llychlynwyr yn ymgartrefu mewn rhannau o Gymru. Mae etifeddiaeth y Llychlynwyr i'w gweld yn enwau lleoedd Sgandinafaidd Sir Benfro, megis: Ynys Sgogwm, Ynys Bŷr, Cas-blaidd a Scolton.

1066
BRWYDR HASTINGS

Brwydr rhwng y lluoedd Normanaidd, dan arweiniad William Goncwerwr, yn erbyn Brenin Harold II o Loegr.

1284
CYMRU'N DOD YN DYWYSOGAETH
DAN REOLAETH LLOEGR

Brenin Edward I yn cyhoeddi Statud Rhuddlan, a gyflwynodd gyfraith gwlad Lloegr i Gymru.

HANES CYMRU

1401
BUDDUGOLIAETH FAWR GYNTAF GWRTHRYFEL GLYNDŴR

Yn dilyn goresgyniad Edward I, roedd y gwrthryfel, dan arweiniad Owain Glyndŵr, am ennill annibyniaeth o Loegr i'r Cymry. Erbyn 1407, gorchfygodd y Saeson fyddin Glyndŵr.

1457
BRENIN HARRI VII YN CAEL EI ENI YNG NGHASTELL PENFRO

Ganed Harri VII yng Nghastell Penfro a daeth yn Frenin Lloegr rhwng 1485 a 1509. Ef yw'r unig frenin Cymreig yn hanes Prydain.

1599
GENEDIGAETH CROMWELL

Gwleidydd a swyddog milwrol o Loegr oedd Oliver Cromwell. Arweiniodd fyddinoedd yn Rhyfeloedd Cartref Lloegr a diddymu'r frenhiniaeth Brydeinig nes iddo farw.

1642
RHYFEL CARTREF CYMRU

Ymgasglodd milwyr yng Nghymru fel gwrthryfel yn ystod Ail Ryfel Cartref Lloegr. Gorchfygodd byddin Cromwell y gwrthryfel ym Mrwydr Sain Ffagan.

1782
CHWAREL LECHI FWYAF Y BYD YN AGOR YM MHENRHYN

Chwarel Lechi Penrhyn oedd y chwarel lechi fwyaf a'r mwyaf cynhyrchiol yn y byd, gan wneud Cymru yn gyfrannwr blaenllaw yn ystod y Chwyldro Diwydiannol.

1789
GWEITHFEYDD HAEARN BLAENAFON

Roedd Blaenafon yn Ne Cymru yn doreithiog o ran glo, calchfaen a mwyn haearn. Blaenafon a fu ar flaen y gad o ran adeiladu seilwaith y byd modern.

1797
RHYFELOEDD NAPOLEON

Dyma'r ymosodiad olaf ar Brydain, lle glaniodd 1,400 o filwyr ger Abergwaun. Cipiodd Jemima Fawr 12 o'r milwyr goresgynnol.

1839
TERFYSGOEDD BECA

Digwyddodd Terfysgoedd Beca mewn rhannau gwledig o Gymru lle bu ffermwyr yn protestio yn erbyn tollau ffyrdd. Gwisgodd y protestwyr eu hunain fel merched ac fe'u henwyd yn 'Ferched Beca'.

1911
DEDDF YSWIRIANT GWLADOL GENEDLAETHOL

David Lloyd George oedd y sbardun ar gyfer system newydd o yswiriant iechyd a chyflogaeth. Roedd yn gam mawr ymlaen o ran amddiffyn pobl mewn gwaith rhag colli incwm oherwydd salwch neu ddiweithdra.

1999
SEFYDLU SENEDD CYMRU

Mae'r Senedd yn creu deddfau ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi Cymreig ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.